Y DINESYDD

Mehefin 2014 Papur Pobl Caerdydd a'r Fro Rhif 388 £1

Coroni Côr Ysgol Iolo Morganwg

Côr Ysgol Gynradd y Flwyddyn
***Songs Of Praise* 2014**

Y côr buddugol yn dathlu eu llwyddiant gydag un o'r beirniaid - Gareth Malone - a chyflwynwyr y rhaglen *Songs of Praise,* David Grant a Claire McCollum.

Ar Fawrth 15fed eleni teithiodd côr Ysgol Iolo Morganwg, ynghyd â chriw o gefnogwyr brwd, i Birmingham er mwyn cystadlu gyda chwe chôr arall yn nghystadleuaeth *Songs of Praise* ar gyfer Côr Ysgol Gynradd y Flwyddyn 2014.

Rhaid oedd paratoi dwy gân – y naill ar gyfer y rownd gyn-derfynol a'r llall i'w chadw ar gyfer y rownd derfynol. Ffilmiwyd ar gyfer y ddwy raglen ar yr un diwrnod ac fe lwyddodd côr Ysgol Iolo Morganwg i gyrraedd y rownd derfynol lle rhoddwyd perfformiad hudolus o'r gân *Cydiwn Ddwylo.*

Roedd y plant yn hynod gyffrous o gael perffomio ar lwyfan mor fawr ac o flaen panel o feirniaid adnabyddus – sef Suzy Digby, Gareth Malone a Laura Mvula.

Mawr oedd eu llawenydd o gael eu henwi'n fuddugol gan dderbyn tlws hardd yn wobr. Roedd yr achlysur yn un bythgofiadwy ac roedd y plant, y staff a'r rhieni wedi mwynhau'r achlysur yn fawr.

Daeth criw o blant a chefnogwyr ynghyd i wylio'r rhaglen a ddarlledwyd ar BBC1 ar 11eg Mai. Bu'n dipyn o gamp cadw'r gyfrinach hyd nes y dyddiad darlledu!!

Carai Ysgol Iolo Morganwg estyn eu diolch a'u gwerthfawrogiad i arweinyddes arbennig ac ymroddedig y côr, Mrs Eleri Roberts, am ei holl waith caled wrth hyfforddi ac ysbrydoli'r côr ac hefyd i'w cyfeilyddes ddawnus, Mrs Deb Lewis.

Coroni Côr Only Kids Aloud

Ym mis Mai teithiodd pedwar disgybl o Ysgol Gyfun Bro Morgannwg i Dde'r Affrig gyda chôr Only Kids Aloud i gymryd rhan mewn gŵyl i ddathlu 20 mlynedd ers diwedd apartheid yn y wlad. Yn perfformio gyda nhw roedd cantorion o Dde'r Affrig a'r canwr opera byd-enwog Bryn Terfel. Rhwng popeth roedd naw o blant Caerdydd yn y côr sef Morgan Baulch, Maerun; Joseph Dobbins, Llandaf; Beth Bradfield, Mynydd Bychan; Catrin Jones, Grangetown; Molly Fenton, y Waun Ddyfal; Molly Roberts, y Rhath; Declan Ford, yr Eglwys Newydd; Jack Cox, Pentre-poeth a Manon Hammond, Treganna.

Mae 64 o blant yn y côr, rhwng 9 ac 14 oed ac o bob cwr o Gymru. Fe berfformion nhw *Spirit of Hope* gan Paul Mealor, Llanelwy am ddwy noson ochr yn ochr â chorws ac unawdwyr cwmni Opera Cape Town yng nghartref y cwmni, Artscape.

Yn ystod y daith, fe gafodd y plant gyfle i ymweld ag Ynys Robben, lle carcharwyd Nelson Mandela, arlywydd du cyntaf De'r Affrig ym 1994. Fe frwydrodd yn erbyn apartheid ac o'i herwydd roedd yn y carchar am 27 mlynedd. Am 18 o'r blynyddoedd hynny, roedd yn y carchar ar Ynys Robben. Diau i lawer o ddarllenwyr y *Dinesydd* fod yn rhan o'r frwydr yn erbyn apartheid ac yn aelodau Mudiad Gwrth-apartheid Cymru.

Er mwyn cael mynd ar y daith, rhaid oedd i bob aelod o'r côr godi arian, yn ogystal â mynychu llu o sesiynau ymarfer. Rhyngddyn nhw, fe gododd y côr gyfanswm o £38,000. Roedd ganddyn nhw sawl syniad creadigol i godi arian fel gwerthu teisennau, ailgylchu hen ddillad a rhoi gwersi piano.

Fe gaiff darllenwyr y *Dinesydd* gyfle i fwynhau doniau'r côr ym Mis Gorffennaf. Gydag Opera Cape Town a'r bariton Gary Griffiths o Ben-bre, Sir Gâr, fe fydd Only Kids aloud yn perfformio *Spirit of Hope* yn Eisteddfod Gerddorol Ryngwladol Llangollen.

Pobl CAERDYDD
Y Dinesydd Digidol

- Bu ymateb a sylw mawr i gyfres o erthyglau gan Huw Chiswell ar *Her yr Oriau Brig.* Fe wylioddd Huw wythnos o raglenni S4C yn dilyn pryder Rhodri Talfan Davies, Cyfarwyddwr BBC Cymru, am y gostyngiad o 17% yn nifer y bobl sy'n gwylio S4C yn ystod yr oriau brig. Fe aeth Huw ar y radio i drafod ei arbrawf ac fe gawson ymateb diddorol a chynhwysfawr iawn gan S4C.
- Mae cyfres achlysurol Pobl Caerdydd *Clebran Da* …… yn mynd o nerth i nerth. Yn ystod yr wythnosau diwethaf bu Arfon Haines Davies, yr actores Elin Haf Davies a'r archaeolegwr a'r actor Dr Iestyn Jones wrthi'n clebran am eu hoff le yng Nghaerdydd, hoff atgof plentyndod a'r peth mwyaf diddorol ac eu *CV*.
- Rydym wedi bod yn adlewyrchu llwyddiant plant Caerdydd a'r Fro yn yr Urdd yn y Bala eleni, gyda twitter@poblcaerdydd yn trydar ac ail drydar llwyddiannau ysgolion cyfun a chynradd y ddinas a'r fro.

Sali Colins

O Grenoble i Gŵyl Ifan

Tybed faint o ddarllenwyr *Y Dinesydd* sydd wedi ymweld â'r Vercors yn Ffrainc, a Villard de Lans yn benodol? Pentref bach yw Villard de Lans nid nepell o Grenoble.

Bob nos Wener bydd ymarfer dawnsio gwerin gan dîm La Picouline, sy'n cynnal traddodiadau'r ardal hyfryd hon. Yn nechrau mis Mai eleni cafodd aelodau Cwmni Dawns Werin Caerdydd y fraint o ymweld â'r tîm am benwythnos hir. Roedd yn sgil ymweliad La Picouline â Gŵyl Ifan ychydig flynyddoedd yn ôl. Bu'r Cwmni yn dawnsio a chanu ar sgwâr y pentref brynhawn Sadwrn yng nghwmni La Picouline a Meskajou o Lydaw sydd bellach yn ffrindiau agos i Ddawnswyr Caerdydd. Yn y nos cafwyd gwledd o ddanteithion lleol cyn ymddangos yn y gyngerdd yn neuadd y pentref. Roedd yr ymateb i'r dawnsio yn wych a rhai yn dweud bod y merched yn dawnsio'n osgeiddig tra bod y dynion yn heini a phawb â gwen ar eu hwynebau.

Cwmni Dawns Werin Caerdydd - Taith i Vercors

Rydym ni yng Nghwmni Dawns Werin Caerdydd yn hynod o falch i gyhoeddi fod Gŵyl Ifan, sef yr ŵyl flynyddol sy'n lliwio strydoedd y brif ddinas gyda'r llawenydd o ddawnsio gwerin Cymreig, unwaith eto'n cael ei gynnal, ar benwythnos y 13eg i'r 15fed o Fehefin. Rydym wedi bod yn trefnu'r ŵyl ers 1979 a dyma'r 38fed flwyddyn y byddem yn dawnsio yn y strydoedd!

Ers sawl blwyddyn, rydym wedi meithrin yr arfer o estyn gwahoddiad i dimoedd tramor i rannu eu traddodiadau gwerin gyda ni. Eleni rydym yn falch iawn i groesawu tîm o'r Almaen, Volkstanzgruppe Frommern, i ddod â blas Ewropeaidd i'r ŵyl.

Agorir y dathliadau ar nos Wener 13eg o Fehefin gyda thwmpath rhyngwladol cyhoeddus ac fe fydd croeso i bawb ddod am noson o ddawnsio anffurfiol a hwylus. Cynhelir y twmpath o 8 o'r gloch yr hwyr yng Ngwesty'r Angel yng nghanol Caerdydd. Bydd yr Almaenwyr yn arwain sesiwn dawnsio a cheir hefyd adloniant gan Gôr Caerdydd.

Ddydd Sadwrn 14eg o Fehefin bydd cyfle i wylio'r holl ddawnswyr yn gorymdeithio o Westy'r Angel am 11.00 y bore a chyrraedd Neuadd y Ddinas am 11.30 i godi'r pawl haf. Yn dilyn y ddefod hon, byddem wedyn yn dawnsio ledled y dref gan arwain at ddiweddglo o gyd-ddawnsio yn yr Aîs am 4:30 y pnawn.

Mynnwch docynnau a darganfyddwch fwy ar y wefan swyddogol: www.gwylifan.org.

Y DINESYDD

Golygydd:
Miranda Morton

Golygydd mis nesaf:
Ioan Kidd

Cyfraniadau erbyn 27 Mehefin i:
ioankidd@hotmail.com
3 Ceiriog Drive, Pantmawr,
Caerdydd CF14 7TU
Ffôn: 029 20657665

Y Digwyddiadur:
Yr Athro E Wyn James
JamesEW@caerdydd.ac.uk
16 Kelston Road, Caerdydd, CF14 2AJ
029 20628754

Hysbysebion:
Bryan James
db.james@ntlworld.com
52 Highfields, Caerdydd, CF5 2QB
029 20566731

Dosbarthu copïau:
Huw Jones,
huwgybuw@aol.com
22 Blaen-y-coed, Radur,
Caerdydd, CF15 8RL
029 20842811 07985 174997

www.dinesydd.com

Cyhoeddir gan Bwyllgor y Dinesydd.
Nodir hawl y golygyddion i gwtogi
ar erthyglau yn ôl y gofyn.

Argraffwyr:
Gwasg Morgannwg, Mynachlog Nedd.

Ariennir yn rhannol gan
Lywodraeth Cymru

Siopau sy'n gwerthu'r Dinesydd

CABAN, Pontcanna
CHAPTER, Treganna
DERI STOTRES, Rhiwbeina
FOOD FOR THOUGHT, Y Barri
HALCYON DAZE, Wellfield Road
HALLS, Llandaf
SIOP LYFRAU WINDSOR, Penarth
SIOP PRIFYSGOL CYMRU, 12 Stryd Fawr
SIOP Y FELIN, Yr Eglwys Newydd
THE LAZY DUCK, Cowbridge Road East
VICTORIA FEARN GALLERY, Rhiwbeina

"Diau bydd brywdro i geisio newid y penderfyniad anffodus hwn."

Colofn G.R.

Mae 2014 eisoes yn pasio fel trên ac ar yr 21ain o'r mis hwn bydd hi'n ddiwrnod hwyaf y flwyddyn! Gobeithio bydd y mis hwn yn brafiach na mis Mai ac y cawn ni Haf i'w gofio am y rhesymau cywir.

Dydy eleni ddim wedi bod yn flwyddyn lwcus i dîm pêl-droed Dinas Caerdydd a bellach mae'r tîm, er mawr siom i'w gefnogwyr, yn wynebu disgyn o'r Uwch-gynghrair i gynghrair is y tymor nesa ar ôl dim ond blwyddyn yn yr Uwch-gynghrair. Ond rhaid byw mewn gobaith am ddyddiau gwell i'r tîm!

Tra'n sôn am bêl-droed mae gyrfa chwarae y seren gynt o Drelái Ryan Giggs yn brysur ddod i ben hefo tîm Man U ac yntau yn 40 oed bellach ond yn dal yn iach a chwim ar y maes pêl-droed. Hwyrach daw i gael trefn ar dîm ein prifddinas fel hyfforddwr ryw ddiwrnod yn y dyfodol ac yn sicr byddai croeso iddo yn arbennig gan mai brodor o Gaerdydd ydy e.

Wedyn yn y byd rygbi rhaid llongyfarch tîm Rygbi Cymry Caerdydd dan arweiniad eu capten Owain Tudur am ennill Gwobr Bowlen yng Nghystadleuaeth SWALEC yn ein Stadiwm Genedlaethol ar bnawn Sul 4 Mai yn erbyn tîm Llanilltud Fawr. Sefydlwyd y tîm nôl yn chwe degau'r ganrif ddiwethaf yn Aelwyd yr Urdd Caerdydd ac esblygodd wedyn i fod yn Dîm Rygbi Cymry Caerdydd. Fe'i sefydlwyd gan Martin Williams Llysfaen oedd yn ddisgybl yn Ysgol Uwchradd Cathays ar y pryd a hyfforddwr presennol y tîm ydy ei fab Gareth Williams! Llongyfarchiadau i'r clwb ar eu camp. Ceir mwy o hanes y fuddugoliaeth yn y rhifyn hwn.

Siom odd clywed am benderfyniad Cyngor Caerdydd i newid dalgylch Ysgol Gwaelod y Garth gan rwystro plant o bentrefi Ffynnon Taf a Nantgarw rhag mynychu'r ysgol hon yn y dyfodol gan nad ydy'r pentrefi hyn yn rhan o Awdurdod Addysg Caerdydd. Sefydlwyd yr Uned Gymraeg yng Ngwaelod y Garth nôl yn 1967 o ganlyniad i sefydlu Cylch Meithrin Cymraeg ym mhentre Ffynnon Taf a phlant o'r cylch hwn oedd y disgyblion cyntaf yn yr Uned newydd yng Ngwaelod y Garth. Diau bydd brywdro i geisio newid y penderfyniad anffodus hwn.

Cymdeithas Wyddonol Cylch Caerdydd

Hir a mawr fu'r disgwyl am ymweliad yr Athro Glyn O. Phillips â ni yn ein cyfarfod olaf am y tymor ar 19 Mai. Ei destun oedd "Hanes dyddiau cynnar y cylchgrawn *Y Gwyddonydd*." Gwireddwyd pob breuddwyd am gyflwyniad hwyliog a difyr gyda Glyn O. (mae hwn bron â bod yn enw barddol) yn dwyn i gof y cyfnod arloesol, petrusgar a chyffrous. Cyfeiriodd at nifer o bobl gadarn eu hargyhoeddiad, megis Tom Parry, Llywelyn Chambers, Iolo Wyn Williams, Elwyn Hughes ac O.E.Roberts.

Dadlennol iawn oedd y sylwadau ynghylch diddordeb nifer o lenorion a'u parodrwydd i gyfrannu erthyglau, gyda T H Parry-Williams yn amlwg yn eu plith. Nodwyd yn ddiolchgar iawn y llu o awduron erthyglau am wyddorau penodedig. Gyda'i natur diymhongar arferol ychydig o sôn a gafwyd gan Glyn O am ei arweiniad yntau - 'Doedd dim i mi wneud heblaw codi'r ffôn at hwn a hon a deuai erthygl neu nodyn gyda throad y post.' Wel, na, - fel a nodwyd yn y drafodaeth – yr oedd yr ymateb yn brydlon oherwydd bod awduron am barchu'r golygydd a chydnabod ei ddawn ac ymroddiad. Ef oedd y catalydd oedd, heb gael ei newid ei hun, yn hwyluso'r broses ac yn sicrhau pendraw llwyddiannus. Gyda llaw, mae'r sylw 'gyda throad y post' yn arwydd o amgylchiadau cyfathrebu'r cyfnod a mwy byth felly yw'n hedmygedd o'r trefniadau, gyda ninnau erbyn heddiw mor gyfarwydd gyda'r botymau *send, forward* a *delete.*

Gellir pori trysor cynnwys *Y Gwyddonydd* ar-lein gan fod y cyfan wedi'i ddigideiddio gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru yn y casgliad Cylchgronau Cymru Ar-lein.

Bydd ein tymor nesaf yn dechrau ar y 15fed o Fedi. Dewch yn llu. Na phoener am gymhwyster gwyddonol.

Neville Evans

Ceir atgofion JDR Thomas am Y Gwyddonydd ar y wefan: www.dinesydd.com

WHALU MEDDILIE

"Mae ein hawch ni Gymry Caerdydd am cash a chynnwrf yn golygu mai'r genhedlaeth hon fydd yn ta-taio ar y Gymraeg."

Beti George

Dw i mewn hwyliau drwg - drannoeth concwest UKIP, heb gael noson dda o gwsg, crôn fy nhin ar fy nhalcen, a.y.b. Troi at y dinesydd digidol, *Pobl Caerdydd*.

Mae'n amlwg bod bywyd yn braf i Bobl Caerdydd. Mae bwytai yn codi fel madarch yn y brifddinas i ddiwallu ein chwant saith noson yr wythnos. (Heddi, yn tŷ ni, pulled pork sy ar y fwydlen - anodd, oherwydd Alzheimer's David, yw mynd mas i gael porc wedi ei dynnu, ond mae'n rhaid bod yn y ffasiwn.) Mae 'na ddigon o theatrau a sinemâu ar gyfer beirniaid a'r rheiny sy am jyst fwynhau eu hunain.

Ond Duw a'n gwaredo - mae S4C yn symud i Gaerfyrddin! Shwd allen nhw? Chware teg i Bobl Caerdydd, maen nhw'n bobl beniog a gwybodus sy am ein haddysgu ni hefyd. Nawr dw i'n gwbod beth yw *Elephas maximus indicus* - ond ddim yn siŵr beth sy a wnelo hwnnw ag S4C.

Dw i'n sylwi hefyd bod Pobl Caerdydd dan y lach am fod yr iaith ar fin marw. Sylw treiddgar Mr Einion Cantona - "mae ein hawch ni Gymry Caerdydd [Cymry Cymraeg dw i'n cymryd] am *cash* a chynnwrf yn golygu mai'r genhedlaeth hon fydd yn ta-taio ar y Gymraeg." Twt twt - onid lawr yn y Bae - ar ôl cryn frwydr rhaid cyfadde - yr achubwyd yr iaith trwy ddeddfu ei bod yn gyfartal ei statws â'r Saesneg?

A ta beth, mor bell ag y galla i weld, mae Pobl Ceredigion wedi ta-taio â hi eisioes yn ôl yr hyn weles i 'rwythnos ddiwetha.

Roedd na rhyw bump ohonon ni'n siarad o lwyfan neuadd oedd yn llawn dop - pob un ohonon ni yn Gymry Cymraeg glân gloyw. Y gynulleidfa, medden nhw wrtha i, yn hanner a hanner. Dim ond fi o Gaerdydd a gyflwynodd fy llith yn ddwyieithog - Saesneg, pob gair gan y lleill. A Saesneg oedd yr iaith rhyngddyn nhw wrth gymdeithasu ar y diwedd. Ie ta,ta Gymraeg - ond peidiwch â'n beio ni, Bobl Caerdydd!

Piwis iawn heddi, Beti George. Man a man cyfadde mai eiddigedd yw e falle - Pobl Caerdydd heb un gofal yn y byd ond canu a bod yn llawen, a finne yn hiraethu am y dyddie a fu pan roeddwn i'n gallu bod yn un ohonyn nhw. Yr hen glefyd dementia sy wedi rhoi stop ar hynny a finne nawr yn ofalwr. A phwy sy eisiau clywed am hynny i roi dampner ar bethe! Falle'r mis nesa ...

Merched y Wawr Caerdydd

Roedd yn braf iawn cael croesawu pedwar dysgwr atom ym mis Mai, sef Sue Dickson, David Wyn, Mali Draper ac Andrew Derec. Llywydd y noson oedd Bethan Williams a llywiwyd y noson yn ddeheuig iawn gan Shirley Williams, swyddog datblygu y De-ddwyrain. Cafwyd cyflwyniadau byr gan dair o'n haelodau, gyda dwy ohonynt wedi dysgu Cymraeg fel ail iaith. Yn gyntaf gwnaeth Carol Williams sôn wrthym am y grŵp cerddorol, gyda'r enw diddorol 'Ding Dong Bells,' yr oedd hi'n aelod ohono pan yn fyfyrwraig ym Mhrifysgol Aberystwyth yn ystod y chwedegau. Grŵp o safon, mae'n amlwg, gan iddo ennill yn yr eisteddfod ryng-golegol. Rydym yn gyfarwydd â dawn Trish Walker ar y piano gan taw hi yw ein cyfeilydd, ond cawsom yn ystod y noson brofiad o'i gallu arbennig hefyd i chwarae'r clarinet. Beti Williams oedd y siaradwraig olaf, a thrwy gyfrwng llun dyfrlliw hyfryd, fe'n tywysodd o amgylch Abaty Ystrad Fflur, gyda nifer o straeon diddorol am y fro. Fe'i magwyd ar y fferm sy'n ffinio gyda'r abaty. Rhwng y cyflwyniadau, bu cyfle i'r aelodau sgwrsio gyda'r dysgwyr. Noson ddymunol iawn a gobeithir gwneud yr un peth y flwyddyn nesaf eto.

Mwynhau yng nghwmni'r dysgwyr

Teyrnged i'r diweddar Roy Thomas

gan ei gyfaill, Arwel Ellis Owen

Llun trwy garedigrwydd y BBC

Economegydd ag iddo statws rhyngwladol oedd Roy Thomas, ond hefyd yn academydd a oedd am wneud i'w waith ymchwil a'i hyfforddiant fod yn ymarferol berthnasol i anghenion Cymru ei oes. Doedd diogelwch a chymdeithas y tŵr ifori yn apelio dim iddo; allan yn y gymuned, ymhlith y werin bobl, yr oedd ei ddiléit.

Yn enedigol o Fangor, aeth i Goleg Iesu Rhydychen ar ysgoloriaeth o ysgol Friars, gan ennill gradd dosbarth cyntaf mewn Economeg, Athroniaeth a Gwleidyddiaeth, y radd PPE enwog. Wedi gradd ymchwil o Rydychen aeth i Goleg Prifysgol Cymru yn Aberystwyth i weithio gyda'r Athro Edward Nevin, oedd yn benderfynol o fynd i'r afael â sefyllfa economaidd Cymru yn ei gyfnod. Roedd Nevin yn ddarlledwr profiadol, ac wrth ei wylio'n perfformio ac yn cyfathrebu gyda'r gynulleidfa ehangach yng Nghymru drwy golofnau'r *Western Mail*, fe ddechreuodd Roy fagu hyder a blas am y cyfryngau torfol, a hynny yn bennaf drwy ei famiaith.

Wedi cyfnod ym Mhrifysgol Reading, symudodd i Brifysgol Cymru Caerdydd ac i adran yr Athro Brinley Thomas. Yr oedd yntau, fel Nevin, am wneud gwaith ei goleg yn berthnasol i'r Gymru a oedd yn dechrau ymgodymu â datganoli. Roedd Roy yn ei seithfed nef ac, yn ychwanegol at ei ddarlithio a'i ymchwil ymarferol, aeth ati i sefydlu lle iddo'i hun ar y teledu a'r radio, yn y ddwy iaith. Ei apêl i'r cyfryngau oedd ei barodrwydd nid yn unig i gynnig barn, ond hefyd i osod pob datblygiad mewn cyd-destun cyfredol. Dyma Roy yn rhoi ei radd PPE ar waith, gydag ystyriaethau gwleidyddol yn plethu gyda'r data economaidd, ac ehangder meddwl yr athronydd yn caniatáu iddo gyflwyno dadansoddiad cyflawn.

Weithiau fe fyddai'n mynd yn styfnig o amharod i ddarlledu os oedd o o'r farn bod y cyfryngau'n dewis peidio neu yn methu â chydnabod arwyddocâd datblygiad yr oedd o'n meddwl ei fod o bwys. Fe ddatblygodd steil o ddarlledu oedd yn gorfodi golygyddion i neilltuo amser teg a phriodol i'r pwnc. Roy, yn anad neb, a siarsiodd y cyfryngau i dwrio dan yr wyneb ac ymchwilio ymhellach.

Estynnwn ein cydymdeimlad dwysaf i Helen a'r merched, Rhian, Mari a Catrin yn eu colled annhymig.

Geiriadur yn yr oes ddigidol

Mae'n amser cyffrous i *Geiriadur Prifysgol Cymru* (GPC) gan ein bod ar fin lansio fersiwn ar-lein fydd ar gael am ddim i bawb.

Ddydd lau, 26 Mehefin, bydd Prif Weinidog Cymru, Carwyn Jones, yn gwasgu'r botwm fydd yn rhoi'r adnodd gwerthfawr hwn yn fyw ar-lein.

Ystyrir *Geiriadur Prifysgol Cymru* yn adnodd safonol o'r un pwysigrwydd i'r Gymraeg ag sydd gan yr *Oxford English Dictionary* i'r Saesneg. Sefydlwyd y cynllun yn 1921 yn y Llyfrgell Genedlaethol yn Aberystwyth fel un o brosiectau ymchwil mawr cyntaf Prifysgol Cymru. Geiriadur hanesyddol yw GPC, yn olrhain hanes, ystyr a datblygiad geiriau ac ymadroddion dros gyfnod o 1,300 o flynyddoedd a mwy. Ymddangosodd mewn rhannau o 1950 ymlaen nes cyrraedd pen y daith (a'r gair Zwinglïaidd) yn 2002, pan lansiwyd pedair cyfrol sylweddol yn hen adeilad y Cynulliad gan y Gwir Anrhydeddus Rhodri Morgan.

Dechreuodd y staff weithio ar yr ail argraffiad yn syth, gan ychwanegu miloedd o eiriau ac ystyron newydd yn yr adran A-B. O'i herwydd mae'r gwaith yn cynnwys dros wyth miliwn o eiriau. Erbyn hyn, yn ein hoes ddigidol, mae Prifysgol Cymru wedi penderfynu y byddai'r Geiriadur yn fwy defnyddiol i'r rhan fwyaf o'r boblogaeth fel adnodd ar-lein yn hytrach nac fel cyhoeddiad print.

Bydd hwn yn adnodd amhrisiadwy i bawb sy'n ymddiddori yn y Gymraeg.

Cewch ragor o wybodaeth ar ein gwefan www.cymru.ac.uk/geiriadur,

Andrew Hawke
Golygydd Rheolaethol, Geiriadur Prifysgol Cymru

Merched y Wawr Bro Radur

Nos Fercher Mai 7ed bu cangen Bro Radur yn cofio'r Dywysoges Gwenllian (1282 – 1337), merch Llywelyn ein Llyw Olaf. Croesawodd Nia Jones, ein Llywydd, yr Athro John Gwynfor Jones atom i'n goleuo am hanes y Dywysoges amddifad a alltudiwyd i Swydd Lincoln yn faban yn 1283. Braint i ni oedd cael gwrando ar ysgolhaig yn trafod hanes yr arglwyddi, y tywysogion a'r uchelwyr fu'n dylanwadu ar fywyd Cymru yn yr Oesoedd Canol. Mae stori Gwenllian yn ddirdynnol drist; colli ei mam Eleanor de Monfort ar ei genedigaeth a'i thad yn cael ei ladd chwe mis yn ddiweddarch yng Nghilmeri. Priordy Sempringham, Swydd Lincoln fu cartref Gwenllian am weddill ei dyddiau. Aeth yn angof o fywyd Cymru am ganrifoedd. Eto, diolch i Gymdeithas Gwenllian a sefydlwyd yn 1996 ac i frwdfrydedd a dyfalbarhad Mallt Anderson, llwyddwyd i ddod â'r Dywysoges Gwenllian yn ôl i sylw'r genedl. Llwyddodd y Gymdeithas i osod cofeb newydd ym man claddu Gwenllian yn Sempringham; cofeb nodedig yn Hafod Eryri ar ben yr Wyddfa ac yn 2009 llwyddwyd i gael cydnabyddiaeth iddi drwy enwi'r Garnedd uchaf yn Eryri yn Garnedd Gwenllian. Yn angof ni chaiff fod. Diolchodd Nia Jones a Shirley Williams i'r Athro Jones am ei ddarlith ddiddorol. Cawsom gyfle i weld arddangosfa [a baratowyd gan Shirley a rhai eitemau gan Mallt Anderson] oedd yn crynhoi hanes y Dywysoges a gwaith Cymdeithas Gwenllian.

John Gwynfor Jones a rhai o'r aelodau gydag Arddangosfa Gwenllian

Soniodd Nia am Ŵyl Wanwyn lewyrchus y Rhanbarth a drefnwyd gan gangen Casnewydd ym mis Ebrill. Pleser hefyd oedd croesawu Elizabeth Fernandez o Batagonia atom, a gobeithiwn y bydd yn cartrefu'n hapus yng Nghaerdydd. Edrychwn ymlaen at fwynhau noson o Frethyn Cartref ar Fehefin 4ydd.

Eirlys Davies

Aelwyd Hamdden

Merch ac athrawes o ardal Llandysul yw Falmai Griffiths, sy'n byw a dysgu yn y ddinas ers blynyddoedd. Cafwyd prynhawn hwyliog iawn yn ei chwmni a'i hiwmor byrlymus yn foddion i'r galon. Soniodd am ei bywyd a'i addysg gynnar gan gynnwys llawer stori ddoniol am hen gymeriadau. Er enghraifft, cofiai bobl enwog fel Cynan yn pysgota ar lannau'r Afon Teifi a hithau'n hela dyfrgwn ar y glannau.

Ymunodd 35 o'r aelodau ar daith addysgol i ymweld â'r Eglwys Gadeiriol a Chapel y Plough yn Aberhonddu. Rhoddodd y tywysydd grynodeb o hanes y Gadeirlan. Yna traddododd y gweinidog, y Parchedig Michael Hodgson, hanes Capel y Plough a sefydlwyd ar safle hen dafarn yn 1715, cyn rhoi datganiad meistrolgar a phroffesiynol ar yr organ brydferth. Mwynhaodd pawb bryd o fwyd blasus yn Nhý Bwyta'r Pererinion ar safle'r gadeirlan - diwrnod i'w gofio!

Yng nghyfarfod diwedd mis Ebrill, yr Athro Glyn Evans Jones oedd y siaradwr, gŵr hynaws yn enedigol o Lannerch-y-medd, Sir Fôn. Testun ei anerchiad oedd "Tafodieithoedd yn y Gymraeg" - sef maes ei astudiaeth arbennig yn Uned Ymchwil Adran y Cymraeg Prifysgol Caerdydd ac yng Ngholeg y Brifysgol yn Llundain, cyn iddo gael ei benodi yn bennaeth ac yn Athro'r Gymraeg yn y brifddinas. Bu'r sgwrs yn ddiddorol dros ben a'r pwyslais fod y tafodieithoedd yn tarddu o gymaint o ffynonellau gwahanol. Roedd y gynulleidfa a'r Athro yn amlwg wrth eu bodd yn y drafodaeth frwd.

Bythefnos yn ddiweddarach gwraig adnabyddus hynaws, sef Mari Price, Llandaf, oedd y gwestai, yn sôn am ddau lun oedd yn werthfawr iddi ers ei phlentyndod fel merch y mans yng Nghaerfyrddin. Bu ei thad, y Parchedig W B Griffiths yn weinidog adeg y rhyfel yn eglwys y Priordy. Un dydd Nadolig cymerodd ei rhieni Almaenwr i'w cartref, Willy Fach o Furtsburg. Cofiai i'w nerfusrwydd ddiflannu wrth chwarae tiddlywinks! Gofynnodd a allai ddod eto, ac aeth i'r capel lawer gwaith. Daeth Mari i adnabod y dyn cyfeillgar yma, a'i ffrind o arlunydd, Kurt Herbe. Dangosodd Mari ddau lun sef rhodd oddi wrth Kurt i ddiolch am groeso'r teulu – y naill yn llun o Ddyffryn Tywi a'r llall o Eglwys y Drindod Sanctaidd, Pont ar Gothi. Parhaodd y cyfeillgarwch rhyngddi â Willy am flynyddoedd wedi'r rhyfel. Rhannodd y gynulleidfa brofiadau tebyg yn ystod y prynhawn, atgofion a ysbrydolwyd gan Mari a'i hanesyn.

Ceir manylion y cyfarfodydd nesaf yn y Calendr.

Menna Brown (Ysgrifenyddes)

NABOD EIN POBOL



Falmai Griffiths yn holi Dafydd Roberts

Ble cawsoch eich geni?
Ces i fy ngeni yng Nghaer i deulu Cymraeg a chael fy medyddio yn Eglwys Gymraeg Sant Martin.

Ble cwrddodd eich rhieni?
Fe gwrddon nhw yn Aelwyd Caer. Roedd fy nhad o Gaer, o deulu Cymraeg, ond roedd mam o Ddyffryn Conwy ac yn hyfforddi i fod yn nyrs yn ysbyty Caer ar y pryd.

Roedd eich taid a'ch nain yn Gymry Cymraeg, felly?
Oedden. Ysgrifennodd fy nhaid lyfr ar hanes Y Cymrodorion yng Nghaer yn y 18fed ganrif.

Yng Nghaer y magwyd chi?
Ie, tan yn bedair oed ac yna symud i Fae Colwyn. Yna es i Ysgol Gynradd Gymraeg Bod Alaw. Dim ond tua deugain o blant oedd yno ar y pryd. Symud wedyn i Ysgol Ramadeg Bae Colwyn. Wedi gorffen yn yr ysgol es i Goleg Cartrefle yn Wrecsam i astudio Saesneg. Pan oeddwn yno yn hyfforddi i fod yn athro penderfynais nad oeddwn yn athro wrth reddf a gorffen cyn diwedd y cwrs.

Dwedwch ychydig am yr amrywiol swyddi y buoch ynddynt.
Ar ôl gadael y coleg es i Lundain ac yna i grwydro Ewrop a phenderfynu byw yn Amsterdam. Roedd perfformio yn fy ngwaed i a ches swydd yn actio a chanu gyda chwmni o'r enw The Magic Bus Theatre Company. Penderfynais ddod yn ôl ac es i goleg drama yn Birmingham. Ar ôl gorffen fy nghwrs fe gwrddais â'm gwraig a symud i fyw i Cheltenham. Ro'n i'n gweithio i gwmni theatr o'r enw Cwrwgl, theatr mewn addysg yn Aberdaugleddau. Roeddwn yn teithio i lawr ar fore Llun a 'nôl nos Wener. Roedd hyn yn gallu bod yn anodd, yn enwedig gan ein bod yn teithio o le i le yn ystod yr wythnos. Rhyddhad i mi oedd cael fy ngherdyn Equity. Bûm yn rhedeg Cwmni Theatr y Byd, i oedolion. Ysgrifennais ddrama o'r enw Thinking in Welsh a mynd â hi i Ŵyl Caeredin a chael derbyniad da yno. Dw i wedi ymddangos ar y teledu hefyd. Ar hyn o bryd dw i'n dysgu Cymraeg i oedolion ym Mhrifysgol Caerdydd ac i gefnogwyr rygbi'r Quins ac yn mwynhau hynny'n fawr iawn. Hefyd dw i'n dysgu gitâr i wahanol oedrannau.

Beth ydy eich diddordebau?
Dw i'n dal yn hoff o deithio ac wedi teithio llawer yn lwerddon. Dw i hefyd yn mwynhau cerdded y mynyddoedd ac wrth gwrs mae'r celfyddydau a sioeau cerdd yn agos at fy nghalon. Dw i'n ddarllenwr brwd ac yn hoff o fynd i'r theatr ac i'r sinema.

Oes yna rywbeth y'ch chi'n arbennig o hoff ohono yng Nghaedydd ac oes 'na bethau y'ch chi'n eu casáu?
Dw i'n hoffi maint y ddinas gyda phob dim mor agos i'w gilydd a'r ffaith fy mod yn gallu cerdded i bob man yng nghanol y ddinas o Dreganna. Hefyd dw i'n hoffi'r gwyrddni ynghanol y ddinas. Dw i'n teimlo fy mod yn cael cyfleusterau dinas fawr mewn dinas fach. Yr hyn dw i'n eu casáu yw'r sbwriel yn enwedig yn Nhreganna ac mae'r enw Lisvane yn fy nghynddeiriogi yn enwedig pan mae'r gair Llys-faen mor brydferth.

Pwy sydd wedi dylanwadu arnoch chi a pha berson fyddech chi'n hoffi sôn amdano?
Y dylanwad mwyaf oedd mam. Roedd hi'n hoff o actio a dw i'n siwr taw ganddi hi y ces i'r ysfa i fynd i goleg drama. Y dyn dw i'n ei edmygu fwyaf yw Bob Dylan. Tyfais i fyny gyda'i gerddoriaeth a dw i'n hoffi ei ganeuon protest ac i mi mae e'n barddoni'n dda ac wedi deall sefyllfaoedd pobol a'r holl anghyfiawnderau sydd yn y byd. Roedd yn edmygydd o farddoniaeth Dylan Thomas a dyna pam rhoddodd yr enw Dylan iddo'i hunan.

Os hoffech chi gyflwyno rhywun y'ch chi'n ei nabod, rhowch wybod i fi, Falmai, ar fal.griff@gmail.com

---

Llongyfarchiadau i Marc a Nia Evans, Pontcanna, ar enedigaeth Agnes Elisabeth ar 15fed Mai yn Ysbyty'r Brifysgol, yn chwaer fach i Edith Alys ac yn wyres arall i Gruff ac Eifiona Roberts, Aberhonddu a Siarlys a Barbara Evans, Rhiwbeina.

CERDYN POST

Lowri Haf Cooke yn holi Sarah Blainey Ansquer

Mae Sarah Blainey Ansquer, sy'n 35 mlwydd oed, yn bennaeth ar Gyfadran y Dyniaethau yn y British International School of Riyadh yn Saudi Arabia. Mae'n briod â'r Llydawr Loic Ansquer, ac yn fam i Thomas Karadog, sy'n dair blwydd oed.

Un o ble ydych chi yng Nghaerdydd?
Un o Bentwyn ydw i'n wreiddiol, ac yno bues i'n byw cyn mynd i'r Brifysgol yn Aberystwyth yn ddeunaw oed. Roedd Pentwyn fy magwraeth yn lle gwahanol i Bentwyn heddiw; roedd e'n lle gwledig, llawn golygfeydd o ffermydd a bryniau. Mae wedi tyfu'n faestref fawr erbyn hyn. Ac eithrio un ewythr yng Ngorllewin Cymru, mae fy nheulu cyfan yn byw yng Nghaerdydd - ym Mhentwyn, Llanedeyrn, y Tyllgoed a Llandaf. Rydyn ni'n dychwelyd yn aml - mor aml nes ein bod ar fin prynu tŷ yno.

Sut lanioch chi yn Saudi Arabia a beth ydych chi'n ei wneud yno?
Pan gwrddais i â ngŵr roedd e eisioes yn byw yn Riyadh felly fe gawsom ni berthynas traws-gyfandirol am sbel cyn i mi symud yno i fyw ato, tra roeddwn i'n disgwyl ein mab, Thomas Karadog. Wedi cyfnod fel un o'r *"ladies who lunch"* nes i ddychwelyd i fyd addysg, fel athrawes Hanes a Daearyddiaeth i blant o 3-18 oed yn y British International School. Mae 55% o'r disgyblion o dras Prydeinig, a'r gweddill yn dod o bob cwr o'r byd. Ro'n i'n ffodus i gael fy nyrchafu'n fuan i rôl pennaeth y gyfadran Ddyniaethau, sydd yn swydd ddiddorol dros ben.

Disgrifiwch eich diwrnod delfrydol yn Riyadh.
Y grêd gyffredinol yw nad oes yna lawer i wneud yn Riyadh; mae'n ddinas ar wasgar, sy'n gartref i 7 miliwn o bobol. Mae'n wir fod 'na brinder o ganolfannau diwylliannol i ymwelwyr - ond ry ni'n trio ein gorau! Bydde fy niwrnod delfrydol yn dechrau'n go gynnar, tra ei bod hi dal yn gymharol gynnes, i fynd am dro, neu i redeg o amgylch y Diplomatic Quarter, lle caiff merched ganiatád i ddiosg yr *abaya* du, y mae'n rhaid ei wisgo'n gyhoeddus. Yna, bydden i'n mynd am ginio braf yn y Four Seasons yn y Kingdom Tower, cyn gwneud bach o siopa yn y *mall*. Drws nesaf i Monsoon a Claire's Accessories fe welwch chi Chanel a Christian Louboutin, M&S a Debenhams. Dyw e ddim cweit yn Ganolfan Dewi Sant! Bydden i wedyn yn mynd i nofio gyda Thomas, cyn mynd draw i dŷ ffrind, neu wisgo Ian i fynd mas i ginio elusennol mewn llysgenhadaeth. Mae hyn i gyd yn dibynnu wrth gwrs ar gwblhau fy ngwaith marcio a chynllunio fy ngwersi, cyn y gallen i ddechrau mwynhau diwrnod o'r fath!

Pa dri lle yn Riyadh y byddech chi'n annog rhywun o Gaerdydd i ymweld â nhw i gael blas go dda o'r ddinas ?
Rhaid ymweld â'r Kingdom Tower - cyfuniad o westy, canolfan siopa a bwytai - ac mae'r olygfa o'r *Skybridge* yn werth ei gweld. Cewch chi flas da o'r ddinas wrth ymweld â *souks* (marchnadoedd) amrywiol y ddinas. Yn *Dina souk* gewch chi brynu carpedi Persiaidd hynafol, rhaffau o berlau coeth ac aur fesul gram tra mewn marchnadoedd eraill fe gewch chi brynu ffrogiau ail-law gan dywysogesau Saudi - mae bach fel siopa yn TK Maxx! Yn olaf, ewch ar wibdaith trwy'r ddinas, i "ben draw'r byd" at y llwyfandir dramatig 600 metr o uchder y sefydlwyd Riyadh arno, lle gewch chi olygfa wych o'r twyni tywod cochion y tu hwnt i'r ddinas. Does 'na unman arall sy'n gwneud i mi hiraethu'n fwy am y *"green green grass of home*"!

Beth ydych chi'n ei golli fwyaf am Gaerdydd?
Yn gyffredinol, dwi'n colli cerdded o amgylch y ddinas - yn Riyadh, y car sy'n frenin. Dwi hefyd yn colli cael rhestr win mewn bwyty! Pe bawn i'm gallu trawsblannu adeilad o Gaerdydd i Riyadh, yna'r Amgueddfa Genedlaethol, neu Stadiwm Dinas Caerdydd, fyddai hwnnw.

Bysus i'r Eisteddfod yn Llanelli

Mae Menter Caerdydd yn trefnu bws i Faes yr Eisteddfod yn Llanelli bob dydd o 2 tan 9 Awst. Mae tocynnau yn costio £10 i oedolion a £5 i blant. Cewch archebu tocyn drwy gysylltu â Menter Caerdydd ar mentercaerdydd.org neu drwy ffonio'r swyddfa ar 029 20689888.

EGLWYS EBENESER

Llongyfarchiadau

…i Mel Hopkins am gael ei wobrwyo a'i anrhegu gan Glwb Pêl-droed Caerdydd am ei waith am ugain mlynedd o hyfforddi timau pêl-droed bechgyn yn y brifddinas. Gweler mwy o'r hanes yn y rhifyn hwn o'r *Dinesydd*.

…i Gruffydd Thomas ar fod yn aelod o dîm siarad cyhoeddus Ysgol Glantaf yng nghystadleuaeth y Rotari.

…i Lisa Thomas-Ayres a'i gŵr Tim ar enedigaeth eu plentyn cyntaf, Tora, wyres i Lorenza a Roger.

Penblwydd Hapus

...i Eilir Jones, Helen Hilling a Jonathan Jones; y tri, er nad o'r un oed, wedi cyrraedd carreg filltir arbennig yn ddiweddar.

...i Gôr Poliffonig ar ddathlu pen-blwydd yn 50 oed. Aeth criw da o'n plith i'r gyngerdd ddathlu a chael eu swyno gan berfformiad y côr o Offeren yn B Leiaf gan J S Bach. Llongyfarchiadau iddynt ar gyrraedd carreg filltir mor arbennig yn eu hanes.

Taith flynyddol

Aeth y Chwiorydd am dro i Ewenni eleni a chael amser wrth eu bodd. Ymunodd Alun Tudur, y gweinidog â hwy, fel arfer. Cawsant bryd gwerth chweil o fwyd yn Llanddŵ cyn troi am adre.

Cydymdeimwn

…â Nia a Ryan Chard a'r teulu yn Rhiwbeina. Bu farw mam Ryan yn frawychus o sydyn. Cynhaliwyd yr angladd yng Nglynebwy ar 1 Fai.

...Estynnwn gydymdeimlad hefyd â Mair a Petra Bennett, yn dilyn marwolaeth brawd Mair ar ôl gwaeledd hir.

Bwyd – o fendigedig fwyd!

Aeth 50 ohonom i fwyty'r Clinc ar 22 Mai fel rhan o'n hymdrech i godi arian ar gyfer ein helusen eleni sef Haiti. Cawsom bryd bendigedig a fyddai'n cystadlu â'r gorau o rai o fwytai drutaf a mwyaf dethol ein dinas. Byddem yn annog unrhyw un i fynd yno i brofi o'r arlwy. Llwyddwyd i godi oddeutu £350. Am fwy o fanylion am elusen 'Y Clinc,' ewch i www.theclinkcharity.org.

Tudur Jones

EGLWYS MINNY STEET

Aelodau Newydd

Hyfrydwch oedd croesawu Wendy a Nantlais Roberts-Jones (Y Mynydd Bychan) yn aelodau atom ar ddechrau Mai. Estynnwn groeso cynnes iawn i'r teulu cyfan. Yn yr un oedfa, cawsom y fraint o dderbyn dau o ieuenctid yr eglwys i gyflawn aelodaeth. Croeso arbennig iawn i Elis a Mali Widgery (Pentre'r Eglwys).

Bedydd

Braf iawn oedd tystio i fedydd Tomi Defi Llewelyn Walters, mab Aled a Siân (Yr Eglwys Newydd) a brawd Greta yn yr Oedfa Deuluol ym mis Mai.

Pennill, Nodyn, Llun ac Adnod

Abraham yn aberthu Isaac ac anghrediniaeth oedd y ddau bwnc yng ngyfres newydd diddorol ein Gweinidog.

Wythnos Cymorth Cristnogol

Roedd sawl digwyddiad wedi nodi'r wythnos, gan gynnwys sgwrs gan Hefin Jones a phregeth gan y Parch Jeff Williams.

PIMS

Roedd y thema o heddychiaeth yn parhau gyda chyfweliad ar raglen *Prynhawn Da*, trafodaeth ddofn a chwis ar heddwch. Hefyd bu trafodaeth ar arwyddocâd Wythnos Cymorth Gristnogol ac roedd cyfle i arwyddo Datganiad Anne Frank sy'n ein hannog i weithio tuag at fyd cyfiawn.

Munud i feddwl

Eto pynciau amrywiol iawn sef barddoniaeth, Y Rhaglaw Galio a llyfrau Anders Henricksson a Nassim Nicholas Taleb. Ewch at ein gwefan www.minnystreet.org i gael y manylion.

... ac Ati a Myfyrdod y Mis

Portread o'r Parch Norman MacLeod oedd pwnc "..ac ati" y mis yma, a'r llwynog oedd testun y Myfyrdod.

Taith Gerdded

Parc y Mynydd Bychan oedd lleoliad y Daith Gerdded fisol ac fe roedd y parc ar ei orau yn yr heulwen braf.

Peter Gillard

BETHEL, PENARTH

Estynnwn ein dymuniadau gorau i Nia Thomas (merch Jane a John) ac Alex Smith ar eu priodas ym Methel, ddydd Llun Mai 26ain. Mae Nia yn athrawes yn Ysgol Penygarth ac Alex yn syrfeiwr meintiol. Byddant yn gwneud eu cartref ym Mhontyclun.

Gan gadw gyda'r thema priodasol, llongyfarchwn yn wresog iawn, ac â thipyn o ryfeddod, Jean a Ieuan Evans ar gyrraedd carreg filltir go arbennig, sef bod gyda'i gilydd am 70 o flynyddoedd.

Dymuniadau da i Pat a Dil Samuel ar estyn i statws mamgu a thadcu; pen-glin Dil wedi gwella mewn pryd.

O son am ben-glin, da yw'r newyddion am gyflwr Graham Davies, gŵr Pat.

Mil diolch anturus i Siân Meinir a'i gŵr Dean am ein tywys i wefan newydd Bethel.

Llongyfarchiadau edmygus i Jody Bird, a fu'n aelod brwd o'n clwb ieuenctid TaBeth, ar oresgyn sylwadau dirmygus Simon Cowell ar y rhaglen deledu *Britain's Got Talent*.

Neville Evans

EGLWYS Y CRWYS

Cydymdeimlad

Estynnir ein cydymdeimlad dwysaf â Mrs. Margaret Kettle, Hugh ac Ian, ar eu profedigaeth o golli priod a thad arbennig iawn. Er nad oedd Mr. Vince Kettle yn aelod yn y Crwys, roedd yn hynod o ffyddlon i oedfaon y bore.

Cyfarchion

Dymunwn adferiad buan i Mrs. Ros Williams sydd yn Ysbyty Llandochau. Bydd yn cael ei throsglwyddo i Ysbyty Glan Gwili cyn ymgartrefu yn ei chartref newydd yng Nghaerfyrddin. Bu Ros yn aelod ac yn flaenor ffyddlon yn y Crwys am flynyddoedd lawer a'i gweithgarwch ymhob agwedd o waith yr Eglwys yn amhrisiadwy. Pob dymuniad da iddi yn ei chartref newydd.

Cofiwn hefyd am yr aelodau nad ydynt wedi bod yn dda eu hiechyd yn ddiweddar.

Llongyfarchiadau

Llongyfarchiadau i Ian a Siân Golden ar enedigaeth Catrin, chwaer fach i Alys ac wyres i Tony a Nans Couch.

Ein dymuniadau gorau i'r Dr. Manon Williams ar ei phriodas â Mr. John Antoniazzi ar Ian Llyn Como yn yr Eidal dros y Pasg. Dymunwn pob bendith iddynt i'r dyfodol.

Y Grŵp Merched

Treuliodd y Grŵp Merched brynawn hyfryd yng ngardd Tyn y Berllan, Llysfaen. Wedi taith o gwmpas yr ardd arbennig hon, gorffennwyd gyda phaned a chacen yn y bwyty. Diolch i Catherine Jobbins am wneud y trefniadau.

Y Gymdeithas Ddrama

Cafwyd dau berfformiad llwyddiannus o *Dan y Wenallt* gan y Gymdeithas Ddrama ddiwedd Ebrill/dechrau Mai. Roedd y theatr yn llawn y ddwy noson a'r gynulleidfa wedi mwynhau. Diolch i Betsan Evans am gyfarwyddo ac edrychir ymlaen yn awr at yr ymarferion ar gyfer y perfformiad nesaf yn yr hydref.

Cymdeithasfa'r De

Cafodd Eglwys y Crwys y fraint o gynnal y Gymdeithasfa yn ystod mis Mai. Llongyfarchiadau cynnes i'r Athro Dr. John Gwynfor Jones ar gael ei ethol yn Llywydd y Gymdeithasfa am y flwyddyn nesaf. Diolch i bawb a gymerodd ran yn y trefniadau.

Sasiwn Genhadol Chwiorydd y De

Wythnos yn ddiweddarach cynhaliwyd Sasiwn Genhadol Chwiorydd y De yn y Crwys. Bu'n achlysur llwyddiannus iawn. Anerchwyd cyfarfod y prynhawn gan Mrs. Dianne Bartholomew ar 'Banc Bwyd Caerdydd' a chyfarfod yr hwyr gan Mrs Gwenda Jenkins ar 'beibl.net.' Roedd cyfraniad y ddwy ohonynt yn hynod fendithiol ac ysbrydoledig. Diolch i bawb a gymerodd ran ac yn arbennig i chwiorydd Eglwysi y Crwys a Salem am baratoi'r bwyd. Braf iawn oedd cael cydweithio gyda'n chyfeillion o Eglwys Salem.

Nans Couch

SALEM, TREGANNA

Bedyddiadau

Bedyddiwyd Trystan, mab Lisa a Gwyddno; Carys, merch Siân a Dave, a Llew, mab Angharad a Dafydd, yn ystod y mis. Dymuniadau gorau i chi i'r dyfodol.

Clwb Llyfrau

Bu'r clwb yn trafod 'Yn y Gwaed' gan Geraint Vaughan.

Clwb brecwast ac Adran yr Urdd

Cyfarfu'r clwb brecwast ddwywaith yn ystod y mis, a daeth yr adran at ei gilydd i ymarfer ar gyfer Steddfod yr Urdd yn wythnosol.

Clwb Cerdded

Y man cyfarfod fore Gwener y 23ain o Fai oedd Canolfan Hamdden Pentwyn, gan gerdded llwybr o 3 milltir, ym Mharc Coed y Nant.

Bore Coffi Cymorth Cristnogol

Cyfrannodd nifer o aelodau Salem at lwyddiant bore coffi Cymorth Cristnogol yn Nhabernacl yr Ais. Diolch i'r rhai a fu'n cydlynu'r bore.

Criced

Cawsom sesiynau yn y rhwydi oherwydd y tywydd gwael. Gobeithio daw cyfle i chwarae'r mis hwn!

EGLWYS DEWI SANT

Festri'r Pasg – Cyfarfod Blynyddol yr Eglwys

Yn y cyfarfod blynyddol ar 27ain Ebrill etholwyd Gwenda Williams yn Warden y Bobl a dymunwn bob bendith i Gwenda wrth iddi ymgymryd â'i swydd newydd. Bydd Delyth Davies yn parhâu yn Warden i'r Ficer.

Ffarwelio

Ym mis Ebrill bu'n rhaid ffarwelio â Margaret Ladd wrth iddi symud i fyw i Ddinbych y Pysgod ac ar ddiwedd ei gwasanaeth olaf rhoddwyd anrheg o lun y côr iddi i'w hatgoffa o'i chyfnod yn Eglwys Dewi Sant. Roedd Margaret yn aelod ffyddlon a gweithgar o'r eglwys, a'r côr yn arbennig, ac fe welir ei heisiau - yn enwedig gan yr altos!

Llongyfarchiadau

Dymunir yn dda i Owain ac Elin Clarke ar enedigaeth Ioan Wyn ac i Ffion a Thomas Bourton ar enedigaeth Steffan.

Cymorth Cristnogol

Ar Fai'r 5ed cafwyd stondin delicatessen yn y Bore Coffi yn y Tabernacl a gwnaed arian da tuag at y cyfanswm terfynol. Hefyd eleni penderfynwyd cael tiniau casglu arian y tu allan i'r capel a diolch i Barbara Morgan am ysgwyd y tin yn effeithiol iawn yn ystod y bore.

O'R YSGOLION

Ysgol Nant Caerau

Eisteddfod yr Urdd

Ar ôl y cystadlu a'r holl ymarferion, mae'r amser cyffrous wedi cyrraedd i'n côr! Maent ar eu ffordd i Eisteddfod yr Urdd yn y Bala i gystadlu yn erbyn corau ysgolion bach ar draws Cymru. Dyma'r tro cyntaf i'r ysgol gymryd rhan yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd ac mae pawb wedi cyffroi yn lân. Mi fydd yn brofiad anhygoel i'r disgyblion. Cynhelir y rhagbrofion ar y maes ddydd Llun y 26ain o Fai am 1pm.

Hoffem ddiolch i Miss Stephens, Miss Dwyfor Evans, Mrs Owens a Mrs Rowlands (ffrind i'r ysgol) am eu hyfforddi. Diolch i bawb a gefnogodd y prynhawn coffi ar ôl yr ysgol ac am ddod i wrando ar y côr yn perfformio.

POB LWC I CHI I GYD!! Rydym mor falch ohonoch.

Noddi aerobig

Llawer o ddiolch i chi am eich cefnogaeth a charedigrwydd anhygoel i'r digwyddiad aerobig noddedig yn ddiweddar. Cafodd y plant brynhawn egnïol a llawn hwyl yng nghwmni Sports4U gyda'r athletwr naid uchel Rob Mitchell. Mae Rob yn rhan o dîm Prydain Fawr a bydd yn cynrhychioli Cymru yng Ngemau'r Gymanwlad yn yr Alban yr haf yma. Cafodd y disgyblion gyfle i'w holi a chasglu 'tips' ar sut i ddod yn athletwyr eu hunain ryw ddiwrnod.

Codwyd bron i £1,000 sydd yn ANHYGOEL! Caiff ei wario ar offer chwaraeon i'n hysgol. Llawer o ddiolch eto!

Nofio

Derbyniodd disgyblion Blwyddyn 3 gyfres o wersi nofio yng Nghanolfan Hamdden Trelái. Bob prynhawn am bythefnos bu'r disgyblion yn cerdded draw a mwynhau eu gwersi yn fawr iawn. Mae pob un wedi gwneud cynnydd ardderchog. Hoffem ddiolch i staff y ganolfan am eu cymorth.

Cŵn Heddlu

Daeth tîm Heddlu Cymunedol, yn ogystal â'r Sarjant Mike Evans o'r tîm cŵn heddlu, i'r ysgol yn ddiweddar. Roedd y plant wrth eu bodd yn arsylwi ar sgiliau rhyfeddol y ddau gi - Badger a Sprout. Roedd eu sgiliau darganfod yn rhyfeddol! Diolch yn fawr i chi am ddod!

Ysgol Bro Morgannwg

Noson Wobrwyo Rygbi

Bu'n dymor prysur a llwyddiannus arall i dimau rygbi'r ysgol ac yn ôl ein traddodiad blynyddol, dathlwyd llwyddiant y tîm cyntaf yn noson wobrwyo'r Tîm Hŷn yn nhafarn y Terra Nova ym Mae Caerdydd.

Llongyfarchiadau i'r canlynol:
Capten y tîm cyntaf 2013/14 - Mason Good
Is-gapten y tîm cyntaf 2013/14 - Owain Lord
Capten yr Ail Dîm 2013/14 - Rob Rees
Is-gapten yr Ail Dîm 2013/14 - Lewis Harrison

Chwaraewr y Flwyddyn 2013/14 - Mason Good
Chwaraewr y Flwyddyn i'r Ail Dîm 2013/14 - Lewis Harrison
Chwaraewr a wnaeth y mwyaf o gynnydd 2013/14 - Tom Russell
Chwaraewr mwyaf ymroddgar 2013/14 - Rob Rees

Lewis, Mason, Owain, Rob a'u hathro

Spelling Bee

Erbyn hyn mae cynnal Spelling Bee Ffrangeg yn dipyn o draddodiad ar gyfer blwyddyn 7. Cafodd pob disgybl yn y flwyddyn gyfle i gymryd rhan. Wedi cystadlu brwd, Huw Jones ddaeth ar y brig. Aeth ef, ynghyd â, Twm Aled, Nel Lewis a Lowri Owen, ymlaen i'r rownd nesaf, sef rownd De Cymru, yn Ysgol Bryngwyn. Yno, enillodd Huw yr ail wobr a Twm y bedwaredd wobr. Bydd y ddau yn cystadlu yn y rownd derfynol genedlaethol yn Aberystwyth ym Mehefin. Dyma'r bedwaredd flwyddyn yn olynol ers cychwyn y gystadleuaeth i ddisgyblion o Fro Morgannwg gyrraedd y rownd derfynol. Bonne chance!

Katy Hurley

Ysgol Melin Gruffydd

Pencampwyr Cymru

Llongyfarchiadau enfawr i dîm pêl-rwyd Ysgol Gymraeg Melin Gruffydd am ennill pencampwriaeth Cymdeithas Pêl-rwyd Cymru. Fe wnaeth pob un chwarae yn ardderchog, gan ddangos dyfalbarhad, sgìl a chyflymder gwych wrth chwarae. Roedd y rownd derfynol yn gêm arbennig â safon y chwarae yn uchel – ond fe lwyddodd y tîm i gyd i chwarae yn effeithiol gan ennill 7-3 yn erbyn Ysgol Bro Tegid.

Tîm pêl-rwyd Ysgol Melin Gruffydd
1 – Manon Brynat, 2 – Rhoslyn Hill, 3 – Catrin Mackie, 4- Delyth Cook, 5 – Alaw Evans (capten), 6 – Cerys Bailey, 7- Chelsea Williams, 8 - Tegwen Appleford., 9 - Hannah Jones

Ysgol Glantaf

Yr Adran Fathemateg

Mae'r adran wedi bod yn llwyddiannus iawn eleni yng nghystadleuaeth Her Mathemateg Prydain. Yn y gystadleuaeth hŷn llwyddodd 13 disgybl i ennill tystysgrif efydd a phedwar i gael tystysgrif arian. Derbyniodd Huw Little y wobr am y sgôr uchaf yn yr ysgol. Yn y gystadleuaeth iau, enillodd 17 disgybl dystysgrif efydd, 10 dystysgrif arian ac enillodd Joseff Reed dystysgrif aur yn ogystal â'r wobr am sgôr uchaf yr ysgol.

Cystadleuodd tîm o flwyddyn 9 yn Her Mathemateg Prydain. Roedd Tomos Chidley, Jonah Sutton, Evan Maher a Jack Turner yn cynrychioli Glantaf yn erbyn ysgolion eraill De Cymru mewn gwahanol weithgareddau mathemategol. Llwyddodd y tîm i ddod yn 10fed allan o 24. Llongyfarchiadau!

Sian O'Regan

Gwobrau Llenyddol yr Urdd

Llongyfarchiadau i Megan Manley, blwyddyn 8 am ddod yn fuddugol yng nghystadleuaeth barddoniaeth Eisteddfod yr Urdd 2014. Roedd Rebeccah Williams, blwyddyn 12 yn drydydd yng nghystadleuaeth rhyddiaith dan 25 - da iawn chi!

Penwythnos yn Liddington

Ar 14eg o Fawrth, aeth tim pêl-rwyd Glantaf ar daith i Liddington i chwarae yn erbyn timoedd o Loegr. Chwaraeon ni dwrnament hir a chyffrous. Ar ôl dechrau araf, fe enillodd 8A bob gêm ond dwy ac yn y diwedd daethom yn drydydd. Yn anffodus, collodd tîm B bedwar o'u gemau ond roedd pob un yn agos iawn. Gwnaethon nhw'n dda iawn i ddod yn bumed.

Pan nad oedd unrhyw gemau pêl-rwyd ymlaen, roedd pethau diddorol i'w gwneud fel saethyddiaeth, abseilio, cwrs rhwystrau fertigol a llawer mwy. Y 'Giant Swing' oedd y gweithgaredd mwyaf poblogaidd. Yn y nos, roedden ni'n gwneud gweithgareddau tîm fel cwisiau a chwarae mig yn y tywyllwch. Cafodd pawb amser gwych!

Seren Davies a Megan Manley bl8

Campau ar y cae rygbi

Profodd Ysgol Glantaf lwyddiant ysgubol yn ein cystadleuaeth rygbi xiii gyntaf erioed wrth inni guro Pencoed yng nghystadleuaeth blwyddyn 10 yng Nghlwb Rygbi Senghenydd ar 22 Mai. Y sgôr oedd 42-26, a oedd yn ganlyniad hanesyddol i Ysgol Glantaf.

Yn ôl yr hyfforddwr, Rhydian Garner, mae llawer o'r tim yn chwarae'r ddwy gamp o undeb a chynghrair, a gobeithiai y byddai rygbi xiii yn dechrau ehangu i weddill y gwahanol oedrannau o fewn yr ysgol.

Siân Golden

Blwyddyn 9 yn derbyn eu tystysgrifau yng nghystadleuaeth Her Mathemateg Prydain

Tîm buddugol Ysgol Gyfun Glantaf
(trwy garedigrwydd www.ianlovell.com)

Prynhawn Gwobrwyo CRICC, Tymor 2013-14

Trefnwyd Gwobrau CRICC yn wahanol eleni gan gynnal y seremoni dros y penwythnos. Roedd angen sesiynau ar gyfer 10 oedran ond cafwyd 12 carfan gan fod dwy garfan o dan 7 ac o dan 8 i ymdopi gyda`r niferoedd. Byddai wedi bod yn anodd cael gwell tywydd ac rwy`n siŵr bod pawb wedi mwynhau`r achlysur wrth fwyta mochyn rhost a gwylio`r plant yn chwarae`n hapus ar Faes Diamond.
Yr enillwyr yw:

Carfan	Chwaraewr y Flwyddyn	Tlws yr Hyfforddwr
7 melyn	Lloyd Lucas	Nia Griffiths
7 gwyrdd	Ioan Penry	Ocean Linskey
8 coch	Rhys Gilligan	Jude Lovett
8 glas	Ifan Jenkins	Harry Burrows
9	Sam Sykes	Will Parry
10	Iestyn Thomas	Gruffydd Lloyd
11	Gwilym Evans	Ioan McDougal
12	Ben Jones	Jay Price
13	Tomi Owens	Rhys Hill
14	Matthew Becket	Tomos Evans
15	Max Llewellyn	Callum Rees
16	Charley Smith	Gwydion ap Hedd

Enillodd Manon Johnes dlws am fod yn aelod ffyddlon o garfan 13. O hyn ymlaen bydd Manon yn gorfod chwarae i dîm merched.

Chwaraewr y Flwyddyn CRICC: Max Llewellyn

Ioan Penry

Lloyd Lucas

Hoffai CRICC ddiolch yn fawr iawn i Rhys Patchell oedd yn bresennol i gyflwyno`r tlysau eleni eto.

Bydd yn rhaid i Ioan Penry (Melin Gruffydd), sy`n dal y darian, ei rhoi i Lloyd Lucas (Y Wern) am hanner arall y flwyddyn. Mae'r ddau yn chwaraewyr addawol Dan 7 CRICC.

Carfan dan 13 cyn gêm rownd derfynol Cwpan y Gleision ar Barc yr Arfau. Pontypridd oedd yn fuddugol ond llongyfarchiadau mawr i'r tîm ar gyrraedd y ffeinal.

Cylch Ti a Fi Newydd yn Nhre-biwt

Bydd yr iaith Gymraeg yn torri cwys newydd yng Nghaerdydd y mis hwn wrth i Gylch Ti a Fi newydd sbon agor ei ddrysau yn ardal Tre-biwt ar Fehefin 11eg. Fe fydd y sesiynau Ti a Fi yn croesawu teuluoedd di-Gymraeg a Chymraeg gyda plant 0 – 4 i fwynhau gweithgareddau a cyfle i gymdeithasu mewn awyrgylch Gymraeg.

Meddai Lowri Bell, Swyddog Ti a Fi Caerdydd, "Dwi'n edrych ymlaen yn fawr iawn at groesawu trigolion a theuluoedd yr ardal a rhoi cyfle iddynt gael hwyl trwy fynychu sesiynau Cymraeg. Mae menywod y Ganolfan Yemeni wedi bod yn hynod o groesawgar a chefnogol."

Er mwyn dathlu'r achlysur a chodi ymwybyddiaeth, cynhelir prynhawn hwyl ar ddydd Sadwrn, Mehefin 7fed am 2.30 – 5pm yn y Ganolfan Yemeni ar Alice Street, Tre-biwt. Trefnir y digwyddiad ar y cyd rhwng Mudiad Meithrin, Ymgyrch TAG a llu o bartneriaid eraill. Bydd amrywiaeth o weithgareddau a difyrrwch gan gynnwys stondinau, castell bownsio, peintio wynebau, cerddoriaeth, amser stori, canu a digonedd o gacennau.

Yn ôl Huw Williams, Ymgyrch TAG, "Mae'r digwyddiad hwn yn gam pwysig o ran taith y Gymraeg yng nghymunedau ein dinas. Mae TAG yn ymgyrchu am ysgol gynradd Gymraeg leol i wasanaethu Tre-biwt a Grangetown, ac maes o law bydd rhieni Cylch Ti a Fi Tre-biwt yn anfon eu plant i'r ysgol newydd arfaethedig. Mewn dinas aml-ethnig, aml-ddiwylliannol fel Caerdydd mae'n bwysig cofio bod y Gymraeg yn perthyn i bawb ac yn etifeddiaeth inni gyd.

Mae'r datblygiad yn amserol gan fod Cyngor Caerdydd ar hyn o bryd yn cynnal ymarferiad ymgysylltu gyda'r gymuned, mewn perthynas â chynigion i sefydlu ysgol gynradd cyfrwng-Cymraeg newydd i Grangetown a Thre-biwt.

Nerys Fychan

Clwb Cymric

Diweddglo siomedig i'r tymor a gafodd tîm cyntaf Clwb Cymric wrth golli sawl cyfle i gipio pwyntiau yn y gemau olaf, a gorffen y tymor yn drydydd o'r gwaelod yn adran gyntaf Cynghrair Amatur De Cymru. Gallai olygu fod y clwb yn disgyn yn ôl i'r ail adran wedi un tymor yn unig yn yr adran uchaf, ond gyda digon o reswm i feddwl y gall ddychwelyd i gystadlu ar y safon yma yn y blynyddoedd nesaf.

Gorffennodd yr ail dîm yng nghanol y tabl i ddiweddu tymor rhwystredig wedi i'r tywydd a rhesymau eraill olygu prinder gemau dros fisoedd y gaeaf.

Canol y tabl hefyd orffennodd CIC, y tîm dan ddeunaw, mewn adran a oedd yn cynnwys sawl tîm o safon. Dangosodd sawl un o chwaraewyr CIC botensial ar gyfer y dyfodol.

I gloi'r tymor, cafwyd diwrnod arbennig yn yr haul gyda'r gêm flynyddol rhwng y "Cymric Legends" a'r timau presennol yng Nhwrt-yr-ala, Trelái. Y tîm cyntaf oedd yn fuddugol eleni, ond y peth pwysicaf oedd gweld cymaint o chwaraewyr a chyn-chwaraewyr yn cymryd rhan.

Yn y nos cafwyd y gwobrau blynyddol, gyda chinio yng ngwesty'r Park Plaza gyda'r gwestai arbennig, Osian Roberts, hyfforddwr y tîm cenedlaethol. Roedd Clwb Hoci Cymric yn rhannu'r dathlu ar y noson hefyd, wedi iddynt gwblhau eu hail dymor fel tîm.

Merched Hoci 2014

Enillwyr y gwobrau eleni oedd:
Tîm Cyntaf:
Prif Sgoriwr – Osian Pritchard
Chwaraewr y Flwyddyn a Chwaraewr y Chwaraewyr – Arwel Evans

Ail Dîm:
Prif Sgoriwr – Iwan "Bych" Hughes
Chwaraewr y Flwyddyn: Huw "Sav" Jones
Chwaraewr y Chwaraewyr – Siôn "Touch" Lewis

Chwaraewr y Chwaraewyr yn yr ail dîm

Enillydd Tlws Carwyn, gwobr er cof am gyn-chwaraewr y clwb Carwyn Thomas a fu farw yn 2006, oedd Steve Cope am ei holl ymroddiad i'r ddau dîm a hefyd am ei waith hyfforddi gyda CIC dros y blynyddoedd diweddar.

Steve Cope yn derbyn Tlws Carwyn

Tîm y Cymric, 2014

Rhodri Charles

Cangen y De o Gymdeithas Cymru-Ariannin
Cynhaliwyd cyfarfod blynyddol y Gangen ar Mai 14. Etholwyd Gwilym E Roberts yn Gadeirydd am 2014-2015; Walter Ariel Brooks yn Is-gadeirydd; Eiry Palfrey yn Ysgrifennydd a Bob Pugh yn Drysorydd. Anerchwyd y cyfarfod gan Lois Dafydd a fuodd yn gweithio yn y Wladfa am ddwy flynedd.

Y DIGWYDDIADUR

Mehefin

Sadwrn 7 Mehefin
Mae Cylch Ti a Fi newydd yn cychwyn yn Nhre-biwt. Er mwyn dathlu'r achlysur a chodi ymwybyddiaeth, cynhelir prynhawn hwyl am 2.30 – 5pm yn y Ganolfan Yemeni, Alice Street, Tre-biwt. Manylion pellach: Lowri Bell ar 07967 508471 neu Iola Jones ar 01970 639639 neu 07841 452 607.

Mawrth, 10 Mehefin
Merched y Wawr, Caerdydd. Cyfarfod blynyddol a brethyn cartref, am 7.30pm yn neuadd Eglwys Fethodistaidd Cyncoed, Westminster Crescent. Croeso cynnes i bawb. Manylion pellach: 029 20754379.

Mercher, 11 Mehefin
Canolfan Cymraeg i Oedolion Caerdydd a Bro Morgannwg yn cynnal Noson Bontio, noson o gymdeithasu rhwng dysgwyr a siaradwyr Cymraeg. 6.30 - 8.30 pm, Neuadd Aberdâr, Ffordd Corbett, Caerdydd. Lluniaeth ysgafn a chyfle i ddod i nabod rhai o'n dysgwyr. Gwybodaeth am sut i helpu dysgwyr yn eich cymuned. Croeso i gymdeithasau gynnal stondin gwybodaeth. Manylion pellach: Suzanne Condon ar 029 20874710 neu condons@cf.ac.uk

Gwener, 13 Mehefin
Côr Meibion Taf. Cyngerdd yn Eglwys Dewi Sant, Caerdydd. Yr elw tuag at gronfa adnewyddu'r Eglwys.

Sadwrn, 14 Mehefin
Bore coffi rhwng 10.30 a 12.00 er budd Cymdeithas y Beibl, yn festri Capel Minny Street. Stondinau cacenni a phlanhigion. Mynediad am ddim.

Llun, 16 Mehefin
Cymdeithas Gymraeg Rhiwbina. Cyfarfod Blynyddol a sgwrs gan Gill Griffiths, Llywydd Merched y Wawr, yng nghapel Bethany, Heol Llanisien Fach, am 7.30pm.

Mercher, 18 Mehefin
Aelwyd Hamdden Cymry Caerdydd. Te mefus ac adloniant. Yn festri Capel Minny Street am 2.00pm.

Gwener 20 Mehefin
Clwb Ifor Bach yn cyflwyno Sen Segur, Palenco a Santiago. 9pm, tocynnau yn £6 ymlalen llaw.

Gwener–Sadwrn, 20–21 Mehefin

Cwmni Theatr Arad Goch yn cyflwyno 'Mordaith Anhygoel Madog' yn Theatr Sherman am 10.30am ar 20 Mehefin ac am 11.00am ar 21 Mehefin. Tocynnau a manylion pellach: 029 20646900.

Sadwrn, 21 Mehefin
Bore coffi rhwng 10.30 a 12.00 ar gyfer rhai sy'n dysgu Cymraeg. Sgwrs am 11.00am gan Amanda Griffiths am ei hoff emyn. Yn adeilad yr Eglwys Efengylaidd Gymraeg, Harriet St, Cathays. Croeso cynnes.

Sadwrn, 21 Mehefin
Cymdeithas Gymraeg Rhiwbina. Bore coffi yng nghapel Bethany, Heol Llanisien Fach, rhwng 10.30 a 12.00. Yr elw er budd elusen y flwyddyn, sef Ymchwil i Ganser y Pancreas.

Sadwrn, 28 Mehefin
Datganiad Organ gan Terence Gilmore-James (Pont-hir, Mynwy), yn y Tabernacl, Yr Ais, am 12.30pm. Mynediad am ddim, ond casgliad wrth y drws ar y diwedd.

Gorffennaf

Mercher, 2 Gorffennaf
Aelwyd Hamdden Cymry Caerdydd: Taith Haf i'r Ardd Fotaneg Genedlaethol.

Sadwrn, 5 Gorffennaf
Cyngerdd gan gôr CF1 a chôr Mizoram gyda'r tenor Noah Stewart yng Nghapel y Tabernacl yr Ais am 7.30pm. Tocynnau a gwybodaeth: http://international-eisteddfod.co.uk/tickets/event-list/

Sul, 6 Gorffennaf
Cymdeithas Gymraeg Rhiwbina. Cymanfa Ganu, yng nghapel Beulah, Rhiwbina, am 8.00pm.

Sul, 6 Gorffennaf
Cyngerdd Meic Stevens yn Nghanolfan Celfydydau Chapter. Manylion pellach: Clwb Ifor Bach ar 029 20232199.

Anfonwch fanylion ar gyfer y Digwyddiadur at yr Athro E. Wyn James, 16 Kelston Rd., Yr Eglwys Newydd, Caerdydd, CF14 2AJ
(Ffôn: 029 20628754; ebost: JamesEW@caerdydd.ac.uk)

Tafwyl – Gŵyl Gymraeg Caerdydd 11-18 Gorffennaf, 2014
Mae Llyfryn Tafwyl, sy'n cynnwys amserlen Ffair Tafwyl ynghyd â manylion holl ddigwyddiadau'r wythnos, bellach wedi ei gyhoeddi ac ar gael ar-lein.

Dyma damaid i aros pryd. Cynhelir Bake-off Tafwyl ddydd Sadwrn 12 Gorffennaf. Categorïau i blant dan 11 oed; pobl ifainc 11-16 oed ac oedolion. (£3 i blant a phobl ifainc a £4 i oedolion.) Rhaid cofrestru cyn 27 Mehefin. I gofrestru cysylltwch â Menter Caerdydd ar 029 20689888 neu mentercaerdydd.org.

Hoffai Menter Caerdydd gydnabod cefnogaeth hael Prif Noddwr Tafwyl, Prifysgol Caerdydd.
www.caerdydd.ac.uk

Gwahoddiad gan gôr o Lydaw
Mae côr, Chorale Polyphonique Mor-Gano, o Douarnanez, Llydaw yn awyddus i gyfnewid â chôr o Gaerdydd neu'r cyffuniau. Mae ganddo tua 45 o aelodau rhwng 50 i 80 oed. Maen nhw'n canu caneuon Llydewig, clasurol a Ffrengig. Yn ddiweddar, fe aeth y côr i ganu yn y Crimea.
Tybed a oes gan gôr ddiddordeb mewn cyfnewid yn y flwyddyn 2015? Cysylltwch â Mrs Bethan Lewis ar mmeblewis@gmail.com.
http://morgandz.com/

Cyfarfod Blynyddol Y Dinesydd

Cynhelir y cyfarfod blynyddol yng Nghapel Bethel, Rhiwbeina, 23 Mehefin, 6.30pm

Croeso i bawb

Adloniant Gwahanol

HUD A LLEDRITH GEIRIAU

Detholiad o Lenyddiaeth Gymraeg gan
ARTHUR MORRIS JONES
(cyn aelod o Gwmni Repertori'r BBC)

"Un o'r lleisiau cyfoethocaf yng Nghymru."
(Meredydd Evans)

Os am drefnu noson, cysylltwch â 02920 594 223

Rhif: 143

	A			
D	I	N	E	S
	R			

Ar Draws
3. Cyfeiliorni anunion gydwladwyr Dewi (9)
7. Mae Robin yng ngwisg y meirw yn troi fel olwyn (5)
8. A glywir llef gan Dan yn y lle hwn? (9)
9. Y fan i sefyll yn yr orsaf leol (5)
10. Cynnwrf mynd i Fryste yn wallgof cyn dechrau'r gaeaf.(7)
13. Moduron i sawl cawr (5)
14. Man esmwyth sy'n ddolur i'r glust (5)
16. '---- nefol sy arna'i eisiau,
Dŵr rhedegog gloyw byw' (WW) (5)
17. Gweld yr anweledig! (7)
21. 'Drain ag ----- mall a'i medd
Mieri lle bu mawredd' (EE) (5)
22. Ffôl yw syrthio am swyn y drin (9)
23. 'Er maint yw ---- boen y byd
Mi rof fy mryd ar Iesu' (EJ) (5)
24. Rhoi enw i lawr o'r frest drist mewn amgylchiadau cu (9)

I Lawr
1, Dôl y gwydd ym Mhontypridd (9)
2. Ewch i drefi annifyr a bod yn flin am wneud (9)
3. Dacw fan llid ar grwydr (7)
4. Cynhyrfu deg o'r gwaelod (5)
5. Codaf y gamfa mewn darnau (5)
6. 'At Iesu deuthum ; ---- i
O'r afon fywiol gref' (cyf) (5)
10. Lledu y tenau yn anwastad (5)
11. '---- ---- ---- o'n i eisiau
Oedd bywyd syml braf' (Brigyn) (2, 4, 3,)
12. 'A haul Mehfin drwy'r prynhawn
Yn bwrw'i aur i'th ---- ----'(IDH) (5, 4)



15. Ymosod ar yr etholwyr! (7)
18. Cleisio mewn amgylchiadau pwysig ofnadwy (5)
19. Ffrwyth mawr y cawr ar yn ail (5)
20, '---- addunedau fil
I gadw'r llwybyr cul' (MR) (5)

Enillydd Croesair Rhif 141
Llinos Griffiths, Drefach Felindre

Atebion Croesair Rhif 141
Ar Draws: 1. Gynddeiriog 6. Iachawyr 7. Macwy 9. Cylchog 11. Dirmyg 12. Gwair 13. Nico 15. Olaf 16. Yn llac 18. Acennu 19. Myniar 22. Digri 23.Astudio 24. Aeth i'r lladdfa
I Lawr: 1. Gochel 2. Niwlog 3. Eira 4. O'r cwmwl 5. Diaconiaid 7. Mair 8.Ysgyfarnog 10.Gwenu 11. Dinam 14. Creigle 16. Ynni 17. Cyntedd 20. India 21. Paill

Danfonwch eich atebion at Rhian Williams
erbyn 5 Gorffennaf, 2014.
22 Heol Cae Rhys, Rhiwbeina, Caerdydd, CF14 6AN

Y Cylch Cinio – camu ymlaen i'r dyfodol!

Dyma atodiad i'r nodyn a ysgrifennais ar gyfer rhifyn Ebrill o'r *Dinesydd*. Cynhaliwyd cyfarfod ar Fai 12fed i drafod dyfodol y Cylch, ac ar ôl trafodaeth penderfynwyd i barhau gyda phwyllgor newydd o dan gadeiryddiaeth Michael Jones - un o'n cyn-lywyddion (1993) – a chyda Dafydd Griffiths yn Is-lywydd a Glyn Hughes yn Drysorydd. Rydym yn bwriadu adfywio'r Cylch a denu aelodau newydd. Mae'r Cylch wedi newid eisoes ac yn agored i bawb sy'n siarad Cymraeg – yn ddynion a merched. Ann Rees, sydd wedi dysgu Cymraeg (fel minnau) yw Is-ysgrifennydd newydd y Cylch.

Mae'r pwyllgor newydd yn cwrdd i drafod y dyfodol; bydd manylion y cyfarfodydd ar ôl yr haf yn ymddangos yn rhifynnau nesa'r *Dinesydd* ac yn cael eu lledu drwy e-bost a thrwy ddefnyddio Menter Caerdydd. Os oes diddordeb gyda chi mewn mynychu cyfarfodydd y Cylch ar ôl yr haf, darllenwch y *Dinesydd* am fanylion, neu cysylltwch â fi drwy e-bost: (ajcouch@yahoo.co.uk).

Gair olaf o ddiolch eto i Alun Reynolds sydd wedi gweithio yn galed iawn fel Llywydd ers 2007.

Tony Couch

Ysgrifennydd Cylch Cinio Cymraeg Caerdydd

Dysgwyr y Ddinas

Colofn yng ngofal Suzanne Condon, Swyddog Dysgu Anffurfiol, Canolfan Cymraeg i Oedolion Caerdydd a Bro Morgannwg

Joella Davies
Un o Bedwar Gorau 2014

Rwy'n falch fy mod i wedi enwebu Joella, aelod o'r Ganolfan hon, ar gyfer cystadleuaeth Dysgwr y Flwyddyn yn yr Eisteddfod Genedlaethol eleni. Mae hi'n un sy'n cymryd 'Dysgu Anffurfiol' a'i bwysigrwydd o ddifri a dw i'n credu y basai hi'n llysgennad arbennig i ddysgwyr y dyfodol.

Yn y rownd gynderfynol yn yr Ardd Fotaneg yn Llanarthne ddydd Sadwrn y 3ydd o Fai, dewiswyd Joella yn un o bedwar i fynd ymlaen i'r rownd derfynol a gynhelir ar faes yr Eisteddfod ar 6 Awst. Cyhoeddir y canlyniad mewn seremoni arbennig y noson honno ym Mharc y Scarlets.

Suzanne Condon

Dyma Stori Joella

Dw i'n dod o Bort Talbot yn wreiddiol a ro'n i'n byw yn yr ardal am dros 16 mlynedd. Ers hynny dw i wedi symud o le i le ond byth wedi byw mewn ardal Gymraeg go iawn. Ar ôl byw yn America tair gwaith, Awstralia am flwyddyn, Lloegr am bum mlynedd a Malta am sbel fach sylweddolais i fod rhywbeth ar goll.... doedd fawr ddim o fy iaith fy hun 'da fi.

Dysgais i dipyn o Gymraeg yn yr ysgol, fel pob plentyn yng Nghymru, ond dim digon i gynnal sgwrs. Ar ôl yr ysgol es i i Goleg Abertawe i wneud dosbarthiadau nos yn y Gymraeg ond gwnes i roi'r gorau ar ôl symud o gwmpas gormod. Dechreuais i astudio nyrsio yn 2009 ym Mhrifysgol Nottingham am dair blynedd ac yno ymunais â Chymdeithas Gymraeg Nottingham, sef ex-pats o Gymru sy'n byw yn Nottingham ers blynyddoedd. Ar y pryd ro'n i'n gwylio S4C ar-lein gydag is-deitlau ac yn trio cael sgwrs gydag un o fy ffrindiau dros *skype*. Fel arfer, bryd hynny, ar ôl ceisio siarad Cymraeg am sbel hir roedd pen tost 'da fi.

Ar ôl i mi orffen y radd yn Nottingham ro'n i'n teimlo hiraeth. Des i nôl i Gymru yn 2012 ond y tro yma i Gaerdydd i weithio yn Ysbyty Athrofaol Cymru yn yr uned gofal dwys ble dw i'n gweithio o hyd. Ers i mi symud nôl i Gymru dw i wedi bod yn parhau gyda'r iaith yn enwedig o fis Medi 2012 pan ddechreuais i ar y Cwrs Uwch 1 yn y ganolfan. Erbyn hyn dw i wedi gorffen Uwch 2, a dwi'n gobeithio gwneud y cwrs Cefndir ar ôl yr haf.

Mae gen i lawer mwy o ffrindiau Cymraeg a dwi'n mynychu digwyddiadau Cymraeg yn y ddinas bob wythnos. Dw i hefyd yn defnyddio fy Nghymraeg yn y gwaith gyda'r cleifion. Mae'n hyfryd cynnig gwasanaeth i siaradwyr iaith gyntaf, a dwi'n gwisgo'r bathodyn Siaradwr Cymraeg.

Does neb yn fy nheulu yn siarad Cymraeg ond maen nhw y tu ôl i fi gant y cant ac maen nhw'n falch iawn, yn enwedig fy mam. Dwi'n falch iawn i ddysgu Cymraeg a dwi'n ei defnyddio'n aml iawn. Yn y dyfodol dw i eisiau bod yn diwtor Cymraeg rhan-amser ochr yn ochr â nyrsio....ar hyn o bryd mae gen i ddigon o ymarfer yn dysgu Cymraeg i fy nghariad.

Joella Price

Cydnabod gwaith cwpl o Riwbeina

Yn ddiweddar, cyflwynwyd tusw o flodau drwy gynllun papur newydd yr *Echo* i'r Dr Tom a Mrs Gill Jones, Rhiwbeina, i gydnabod eu holl waith dros y blynyddoedd i godi arian am ymchwil i glefyd y gwaed a lymffoma. Maen nhw'n gwneud y gwaith o ganlyniad i golli eu mab Hywel i glefyd y gwaed ac yntau'n ddim ond yn ddwy flwydd oed. Maen nhw'n weithgar iawn yn eu capel hefyd ac mae'r Dr Jones wedi bod yn drysorydd y capel ers blynyddoedd a'i wraig yn helpu gyda'r gwaith ieuenctid. Cawson nhw eu henwebu am y tusw gan Jayne Cowan, cynghorydd annibynnol Rhiwbeina ar Gyngor Caerdydd.

Gwilym Roberts

Diolch o galon

Hoffai Dave a Margaret ddiolch yn fawr iawn i bawb a gefnogodd y cyngerdd yn Theatr Ddarlithio Ysbyty Athrofaol Caerdydd. Llwyddwyd i godi £4,500 ar gyfer ymchwil sy'n defnyddio celloedd stem, sydd â'r potensial i wella afiechydon yn gysylltiedig ag afiechyd y galon.

Bwytai Merch y Ddinas

Lowri Haf Cooke

"Os oes ganddoch chi fusnes ag enw pendant a chanddo'i steil unigryw ei hun, onid yw glynu wrth y weledigaeth wreiddiol yn gwbl hanfodol? "

A minnau newydd fwynhau gwyliau delfrydol yn ninas Oslo ym mis Mai, rhoddais dro ar gaffi Norsk, yn yr Eglwys Norwyaidd. Saif yr eicon adnabyddus dafliad carreg o Blas Roald Dahl – sy'n cofebu'r awdur enwog o dras Norwyaidd a fagwyd yn Llandaf a Radur – ac mae'n lle cyfleus am ginio ym Mae Caerdydd.

Ces fy mhlesio'n arw ar ymweliad blaenorol, wrth ymchwilio i'r gyfrol *Canllaw Bach Caerdydd*, a chanfod caffi cyfoes yn cyfuno seigiau Llychlynnaidd â chynnyrch Cymreig. Bryd hynny, ces i flas ar y *smörgåsbord* Cymreig, sef platiad o bennog melys, *gravadlax* ac eog wedi'i fygu, ynghyd â chaws Eryri, salad a bara graneri. Yn wir, argymhellais y cinio i neb llai nag Ole Gunnar Solskjær o Norwy!

Ond fel yn achos ei dymor siomedig yntau fel rheolwr tîm pêl-droed y ddinas, erbyn hyn y mae Café Norsk wedi disgyn o uwch-gynghrair caffis Caerdydd. Ag ystyried bod gofod y caffi wedi'i addurno â baneri Norwyaidd lu a murlun trawiadol o dref Bergen, does 'na ddim gronyn o *gravadlax* yno mwyach, a dim smic o *smörgåsbord*. Sy'n fy arwain i holi, beth yn union yw pwynt Caffi Norsk?

Rwy'n falch i ddweud fod yr arlwy a geir yno yn sicr o safon – sef bwydlen helaeth o fyrbrydiau Cymreig. Gofynnais i'r Cymro Cymraeg cyfeillgar y tu ol i'r til pa saig y byddai ef yn ei argymell. Fe ddwedodd yn syth mai'r cawl cig oen a'r *Welsh Rarebit* oedd ei ffefrynnau ef. Archebais *latte* (£2.20) a chaws pôb â bacwn Cwm Gwendraeth (£4.25), oedd yn flasus iawn, i fod yn deg - ond nid dyna pam yr es i i gaffi Norsk!

Pan holais paham nad oedd blas o Norwy i'w brofi yno bellach, yr ateb amwys oedd problemau'n ymwenud ag apwyntio cogydd parhaol. Ond os oes ganddoch chi eisioes fusnes ag enw pendant a chanddo'i steil unigryw ei hun, onid yw glynu wrth y weledigaeth wreiddiol yn gwbl hanfodol? Mae dinas Caerdydd - a'i hymwelwyr lu - yn haeddu gwell.

Café Norsk, Canolfan Gelfyddydau'r Eglwys Norwyaidd, Harbour Drive, Bae Caerdydd CF10 4PA (029 2087 7959)

Canllaw Bach Caerdydd **gan Lowri Haf Cooke, £9.99 (Gwasg Gomer)**

Bwyta Ein Gerddi
y gwasanaeth garddio sy'n blodeuo'n flasus
cynnal a chadw, plannu, tocio, a llawer mwy
Eirlys Rhiannon
07963 060 462
eirlys@bwytaeingerddi.co.uk
www.bwytaeingerddi.co.uk

HeatGlow
Plymwr a Gwres Canolog
Gareth Wyn Jones
07710827477
garethjones@heatglow.co.uk
Gas Safe Register 555577
Busnes newydd drwy gyfrwng y Gymraeg

CHWARAEON

Ennill Powlen SWALEC

Owain Tudur, y capten, a'r garfan yn dathlu. Llun: Irfon Bennett

Clwb Rygbi Cymry Caerdydd 16 Llanilltud Fawr 10

Diwrnod bythgofiadwy i Glwb Rygbi Cymry Caerdydd oedd dydd Sul y 4ydd o Fai. Cyrraedd y rownd derfynol a chael chwarae yn Stadiwm y Mileniwm oedd y nod ers dechrau'r tymor.

Ar brynhawn heulog dechreuodd y Clwb yn gryf. Llwyddodd Oliver Jenkins â dwy gic cosb yn y 15 munud cyntaf ond collwyd ambell gyfle i groesi'r llinell gais. Daeth cais hyfryd ar ôl hanner awr gyda'r canolwr Richard Read yn pasio i'r cefnwr Paul Davies. Trosodd Jenkins ac roedd y fantais yn 13 i 0. Daeth Llanilltud Fawr yn syth nôl a chiciodd y cefnwr Laurence Howley ei dîm i safle gwych ychydig fetrau o'r llinell gais. Enillodd Llanilltud y bêl o'r llinell a chroesodd y prop David Taylor am gais a droswyd gan y mewnwr Ryan Evans.

Owain Tudur, capten CRCC
Llun Irfon Bennett

Dechreuodd Llanilltud yr ail hanner yn llawn hyder. Collwyd cyfle euraid am ail gais wrth i Howley fethu â dal y bêl pan oedd dros y llinell ond llwyddodd Evans â chic cosb. I'r Clwb y daeth y sgôr nesaf wrth i Jenkins anelu unwaith eto am y pyst. Er gwaetha'r ymdrech, ni ddaeth sgôr arall a chyda dim ond chwe phwynt o fantais bu'n chwarter awr olaf yn llawn tensiwn i'r chwaraewyr a'r cefnogwyr. Llwyddodd y Clwb i gadw'r chwarae yn hanner Llanilltud a sicrhau'r fuddugoliaeth.

Bu'n achlysur arbennig hefyd i aelodau ieuenga'r Clwb a gafodd chwarae eu gêm eu hunain. Roedd hi'n braf iawn yng nghanol dathlu llwyddiant y genhedlaeth bresennol i weld cymaint o gefnogaeth a brwdfrydedd gan aelodau'r adran iau ac edrychwn ymlaen at eu gweld nhw'n parhau i ddatblygu a mwynhau eu rygbi am flynyddoedd i ddod. Mae'r dyfodol yn un cyffrous i Glwb Rygbi Cymry Caerdydd!

Anrhydeddu Mel Hopkins

Ar ddiwedd tymor digon siomedig i dîm pêl-droed Caerdydd, braf yw nodi llwyddiant eithriadol Mel Hopkins o Riwbeina, a dderbyniodd ganmoliaeth arbennig gan Barclays wedi iddo gael ei wahodd i Ginio Rheolwyr Uwch-gynghrair Lloegr.

Mae Mel yn wreiddiol o Lanishen, a chafodd ei addysg yn Ysgol Bryntaf ac Ysgol Gyfun Llanhari. Erbyn hyn, mae'n athro yn Ysgol Lansdowne, a phan ymunodd â'r ysgol bron i 20 mlynedd yn ôl, synhwyrodd fod modd iddo gyfuno'i waith fel athro â'i gariad cyntaf, sef tîm pêl-droed Caerdydd. Aeth ati i greu cysylltiad â'r clwb, gan gymryd pob esgus i 'sgubo'r plant lawr i Barc Ninian i gwrdd â'r chwaraewyr, fel modd o wobrwyo'r plant hynny am eu gwaith yn yr ysgol.

O ganlyniad i'r cysylltiad hir yma, ac yn sgil ymrwymiad llwyr Mel i'r plant, y gymuned leol a'i glwb, fe enwebwyd Mel gan y clwb ar gyfer gwobr #YOUAREFOOTBALL, sy'n cael ei noddi gan Barclays.

Dewisodd Barclays Mel yn un o bedwar unigolyn drwy'r DU, i fynychu'r cinio mawr yn Old Billingsgate. Yno, cafodd y fraint o gwrdd â rhai o fawrion y gêm yn Lloegr, gan gynnwys Chris Hughton, Gus Poyet, a neb llai na Syr Alex Ferguson.

Braf yw gweld yr uwch rengoedd ymysg awdurdodau pêl-droed Lloegr yn dangos eu gwerthfawrogiad o unigolion mewn ffordd mor gyhoeddus, a braf yw gweld unigolyn mor deilwng ei derbyn.

Dal ati Mel!

Syr Alex Ferguson
yn mwynhau jôc Mel